# heddwch

haf 2000
rhifyn 23
am ddim neu gyfraniad

cylchgrawn CND Cymru


# cael beth rydyn ni ei eisiau




mouvement de la paix

**Y TU FEWN: Dafydd Iwan yn meithrin diwylliant heddwch**
**economi foesol i Gymru**
**diarfogi niwclear?**
**caewch Wylfa!**

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**


Blwyddyn diwylliant heddwch CCU

# Apêl y frwydr

*Dafydd Iwan*

Gofynnodd plentyn imi unwaith sut y gallai heddychwr ganu cân fel "I'r gad!". Roedd yn amlwg wedi ei fagu ar aelwyd lle'r oedd pynciau fel heddychiaeth yn cael ei drafod, a'r un mor amlwg fod gwrando ar eiriau'r gân wedi creu cryn benbleth iddo. A rhaid i minnau gyfaddef fod y cwestiwn wedi fy rhoi innau mewn lle cas, a'r ateb gwan a rois ar y pryd oedd mai ffigyrol oedd y cyfan, ac nad fi oedd awdur y gân arbennig honno beth bynnag! Byth oddi ar hynny, pan fyddaf yn ei chanu, i gloi cyngerdd fel rheol, bydd cwestiwn y plentyn hwnnw yn dod i'r meddwl, a phob math o feddyliau yn ei sgîl.

Y ffaith syml amdani yw fod delweddau'r frwydr yn apelio at bawb ohonom yn y bôn. Mi wn fod heddychwr da i fod i ymgadw rhag trais o bob math, yn cynnwys trais y meddwl a'r gair, ond mae hynny'n goblyn o dasg. Wedi'r cyfan, onid ydym oll wrth ein bodd yn sôn am "y frwydr" dros gyfiawnder, a "tharo ergyd" dros y gwir, ac "ennill buddugoliaeth" dros heddwch? A defnyddiwyd ieithwedd militariaeth gan yr emynwyr, o "Onward Christian soldiers" i "Lluoedd Duw a Satan sydd yn cwrdd yn awr / Mae gan blant eu cyfran yn y rhyfel mawr". A gwaeth na hyn i gyd, mi gyfaddefaf yn llygad haul a wyneb goleuni fy mod wedi bod yn dipyn o ffan erioed o'r sgwar bocsio!



Wedi cael hynny oddi ar fy nghydwybod, beth yw pwynt hyn oll? Treulio prynhawn ar safle capel y Babell, ynghanol maes tanio'r fyddin ar Fynydd Epynt ddechreuodd gorddi'r meddyliau ynof am y modd y mae militariaeth yn ymwthio i fywyd pawb ohonom. Roedd yr hyn a ddigwyddodd 60 o flynyddoedd yn ôl ar yr Epynt yn un o benodau tristaf hanes diweddar Cymru, ac yn symbol hagr o'r modd y gall y lluoedd arfog, yn enwedig ar adeg rhyfel, sgubo cymuned o deuluoedd o'r neilltu, gyda sêl bendith y Llywodraeth, y Wasg a mwyafrif llethol y cyhoedd. Mae iâs oer yn mynd i lawr y cefn o feddwl mor dawedog oedd pobol Cymru, ar wahân i rai aelodau o Blaid Cymru ac ambell lais unig, yn wyneb y fath weithred. Roedd di-wreiddio bron i gant o deuluoedd o'u cartrefi, a chwalu cymdeithas Gymraeg a diwylliedig yn cyfri megis dim. Roedd y fyddin angen y tir, a dyna ben arni.

Roeddwn i yno y prynhawn hwnnw gyda rhai o'r cyndrigolion a gydag aelodau o Gymdeithas y Cymod ac CND Cymru i gofio'r troi allan ac i ddatgan mai tir pobol Cymru yw erwau'r Epynt o hyd, ac y byddwn rhyw ddiwrnod yn hawlio'r tir yn ôl oddi wrth fyddin Prydain. Ar fryn uwchlaw safle'r Babell, codwyd pentre ffug ar batrwm pentre yn Nwyrain Ewrop ar gyfer ymarferion y fyddin; sgerbydau ceir wedi eu llosgi ar y strydoedd, a llond faniau o filwyr fel pe baent yn disgwyl i rywbeth ddigwydd. Yr hyn a'm trawodd yn fwy na dim oedd fod enwau Cymraeg wedi eu rhoi ar strydoedd y pentre hwnnw; sut mae'r Cymry ymhlith y milwyr yn teimlo pan fyddan nhw'n ymladd y gelyn honedig ar y strydoedd hynny tybed? Mae un peth yn sicr, pe bai unrhyw filwr o Gymro yn meiddio awgrymu fod unrhywbeth o'i le ar ymosod ar bentre gydag enwau Cymraeg ar y strydoedd, fe gâi ei gosbi ag holl rym yr Ymerodraeth Brydeinig.

Erbyn hyn, cynharol ychydig o ddefnydd a wneir o diroedd helaeth y fyddin ym Mhrydain. Yn wir, mae hyd yn oed cyrff fel y Parciau Cenedlaethol a chyrff cadwriaethol yn dechrau pwyso ar y fyddin i ganiatau i'r cyhoedd gerdded ar y tiroedd hyn yn achlysurol, ac i warchod bywyd gwyllt a'r amgylchedd yno. (Cofiwn fel y codwyd yr Ysgol Fomio ym Mhenyberth am fod cymaint o bobol yn gwrthwynebu safleoedd yn Lloegr am resymau cadwraeth). Ond y tebyg yw y bydd mwy o alw am y tir o hyn ymlaen fel y mae milwyr Prydain yn dod adre o wahanol rannau o'r byd lle nad oes eu hangen mwyach. Y cwestiwn mawr yw pryd y bydd Llywodraeth Prydain yn wynebu'r realiti newydd ac yn gofyn oes angen bellach gwario'r miliynnau bob dydd ar gadw lluoedd arfog, ac arfau niwcliar, nad oes mo'u hangen?

Y gwir plaen yw mai hwn fydd un o'r cwestiynnau olaf i gael ei ystyried o ddifri gan unrhyw Lywodraeth Brydeinig. Rydym yn byw mewn cymdeithas, ac yn rhan o ddiwylliant, sydd wedi ei adeiladu ar filitariaeth. Mae ein hadloniant,a gwaeth na dim, adloniant ein plant, yn troi o gwmpas y gwn a thrais a gwaed.

Mae teganau rhyfel a gynnau yn dal i fritho silffoedd ein siopau. Ac y mae cymdeithas yn derbyn yn ddigwestiwn fod hawl gan y wladwriaeth i'n gorfodi i dalu trethi i gynnal ein lluoedd arfog, i barhau'r ymchwil i arfau rhyfel, ac uwchlaw pob dim i hyfforddi pobol ifanc yng nghelfyddyd y gwn, diwylliant y bom a chrefft y tanc.

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi neilltuo'r flwyddyn 2000 yn Flwyddyn Diwylliant Heddwch. Dyma gyfle gwych felly inni feddwl o ddifri sut y gallwn ni hyfforddi ein hunain, a'n plant, yn y "diwylliant amgen" a all sicrhau dyfodol gwâr i'n byd. Yn union fel y mae angen datblygu ynni o ffynonellau adnewyddol a thechnoleg amgen i sicrhau'r dyfodol, felly hefyd y mae'n rhaid inni droi cymdeithas oddi wrth ffyrdd trais i'r ffordd ddi-drais. Chwalu am byth y rhamant sydd ynglyn â rhyfel, claddu'r ffilmiau dagreuol sy'n mawrygu lladd a thrais, a chreu arwyr sy'n arddel dulliau di-drais. Mae'n anferth o dasg, ond y cam cyntaf yw fod angen addysgu'n hunain, a chynnwys yn rhaglen ein hysgolion hyfforddiant yn y dull di-drais o fyw ac o ddatblygu cymdeithas. Mi gawn ni wrthwynebiad ffyrnig wrth gwrs, ond beth all fod yn fwy creadigol yn y pen draw na dangos i'n plant fod yna ffordd amgenach na rhyfel i ddatrys problemau'r byd?

Fel rhieni, fel llywodraethwyr ysgolion, fel cyngorwyr lleol, ac fel Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, gallwn ddechrau'n awr ar y gwaith o lunio rhaglen i osod sylfeini Diwylliant Heddwch yng Nghymru i groesawu'r Milflwyddiant newydd. Mae athro eisoes wedi ei phenodi i wasanaethu ysgolion yng Nghaerdydd yn y maes, a gobeithio y bydd hyn yn un enghraifft o'r brifddinas yn rhoi gwir arweiniad i Gymru.

## Cynhadledd adolygu'r cytundeb gwrth-ymlediad

# Diarfogi niwclear - ond dim eto . . .


*"Y Pum Pwer Niwclear i Ddileu Arfau Atomig"* bloeddiai'r penawdau ar 21ain o Fai. Dywedent fod y penderfyniad wedi derbyn cymeradwyaeth fyd-eang. Disgrifiodd Ysgrifennydd Cyffredinol y CU, Kofi Anaan y penderfyniad fel cam tuag at fyd mwy heddychlon yn rhydd o beryglon niwclear.
Yn y datganiad hwnnw, rhoddodd y pum pwer niwclear "addewid diamwys" i ddileu eu harfogaethau niwclear yn llwyr, gan arwain at y diarfogi niwclear maen nhw i gyd wedi ymrwymo iddo. Digwyddodd hyn ar ddiwedd cynhadledd a oedd yn adolygu'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear (CALl). Mae'n gam ymlaen o eiriad y cytundeb gwreiddiol ym 1970 a oedd ond yn rhwymo'r rhai a'i harwyddodd i symud "i gyfeiriad" diarfogi niwclear.

### "Bargen" y CALl

Trefniant oedd y CALl gwreiddiol lle'r oedd y mwyafrif helaeth o genhedloedd yn cytuno i beidio â datblygu arfau niwclear ar yr amod y byddai'r pum gwladwriaeth oedd ag arfau niwclear yn symud ymlaen tuag at ddiarfogi niwclear. Dim ond y gwladwriaethau heb arfau niwclear a gadwodd at y fargen. Parhaodd y gwladwriaethau niwclear - yr UD, Prydain, Rwsia, Ffrainc a Tsieina - i ddatblygu arfau a systemau saethu taflegrau newydd a mwyfwy soffistigedig, ac mae arfau niwclaer yn dal i fod yn gonglfaen i'w polisïau amddiffyn.
Ar un ystyr, mae'r datganiad yn fuddugoliaeth o fath. Roedd fersiwn gynharach o'r ymrwymiad wedi son am ddiarfogi niwclear fel y nod derfynol. Fe'i gwrthodwyd gan glymblaid o wledydd di-niwclear, yn cynnwys Brasil, Mecsico, a Sweden. Roedd y cytundeb terfynol hefyd yn cynnwys: * addewid i gwtogi yn unochrog ar stociau arfau niwclear; * bod yn fwy agored wrth roi gwybodaeth am arfogaethau niwclear; * gostyngiad yn nifer yr arfau niwclear sy'n cael eu cadw'n barod i'w tanio; * lleihau'r rhan a chwaraeir gan arfau niwclear mewn polisïau diogelwch cenedlaethol; * galw am sefydlu ardaloedd di-niwclear yn y Dwyrain Canol a De Asia.

### Dim Amserlen

Un o wendidiau mawr y CALl yw'r ffaith fod gwladwriaethau fel Israel, India a Phakistan yn gwrthod arwyddo'r cytundeb. Bu Israel, y credir fod ganddi 200 o arfau niwclear heb eu datgan, yn destun beirniadaeth neilltuol. Cynhaliodd India a Phakistan brofion niwclear yn ystod 1998. Y gwendid mwyaf oll yw diffyg unrhyw amserlen. Roedd y penderfyniad terfynol yn dipyn llai na'r hyn a fynnwyd gan y mwyafrif helaeth o'r gwladwriaethau di-niwclear. Ceid barn y mwyafrif mewn cynnig a basiwyd gan Gynulliad Cyffredinol y CU ym mis Rhagfyr 1999, gyda 114 o wledydd o blaid, a dim ond 28 yn pleidleisio yn erbyn, yn cynnwys Prydain ac Unol Daleithau America. Roedd yn galw am "negydu amlochrog yn 2000 yn arwain at arwyddo confenswin ar arfau niwclear yn fuan iawn". Byddai confensiwn o'r fath yn gwahardd arfau niwclear. Mae Ysgrifennydd Amddiffyn Prydain, Geoff Hoone, eisoes galw sylw at y diffyg amserlen glir: "Dwi'n credu, mewn gwirionedd, ei fod yn annhebyg o arwain at weithredu yfory, wythnos nesa neu'r mis nesa, a byddai'n dibynnu ar weithredoedd gwladwriaethau niwclear eraill fel India".




### Y System Amddiffyn rhag Taflegrau

Mae'r addewid newydd yn gwbl groes i ddatganiadau eraill gan lywodraeth yr UD. Ar ddechrau'r gynhadledd, siaradodd cynrychiolydd yr UD yn eofn am ei gynlluniau ar gyfer System Amddiffyn rhag Taflegrau ar gyfer yr Unol Daleithau a fyddai'n golygu fod rhaid diwygio Cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig (CGDB) 1972. Byddai hynny'n dadsefydlogi'r sefyllfa yn sylfaenol a gwrthwynebwyd y cynnig yn gadarn gan Rwsia, Tsieina, Ffrainc, a'r UE, tra dywedodd hyd yn oed y llywodraeth Brydeinig na ddylai unrhyw system daflegrau UD dramgwyddo'r Cytundeb GDB. Dywedodd llefarydd ar ran Tsieina: "Dylai diarfogi fod yn fodd o atgyfnerthu diogelwch pob gwlad, yn hytrach na bod yn gyfrwng ac yn fodd i ychydig wledydd gryfhau eu goruchafiaeth filwrol drwy wanhau neu gyfyngu ar wledydd eraill."

***John Ainslie ac Alan Mackinnon CND Yr Alban***

**heddweithredu:** Ysgrifennwch ar Tony Blair, 10 Dowing Street, Llundain SW1A 2AA, da chi. Dywedwch wrtho eich bod yn falch ynglyn â chanlyniad y CALl, yn gobeithio y bydd yr arwain at weithredu, a gofynnwch pa gamau mae'r DU yn eu paratoi yn sgil ymrwymiadau'r CALl. Mynnwch fod y DU yn ufuddhau i Erthygl 1 o'r CALl. Diolch i bawb sy wedi ysgrifennu ac sy'n parhau i wneud ac i'r rheini sy'n danfon copïau o'u llythyron atom. Nododd gweision sifil yng nghynhadledd y CALl y nifer o lythyron roedden nhw'n eu derbyn, a gofyn i weithiwr Seneddol CND, Sam Akaki awgrymu y dylem ysgrifennu at ein HSau yn lle hynny. Atebodd Sam fel mellten mai'r ffordd o sicrhau llai o lythyron fyddai newid polisi'r llywodraeth a chael gwared o arfau niwclear!

# pigion y newyddion

## Yr UD yn ateb y CALI drwy ehangu ei rhestr o dargedau niwclear

Gan gyfleu'n glir beth yw ei gwir deimladau am unrhyw "gytundeb" a gyhoeddwyd ar ôl Cynhadledd Adolygu'r CALI (gweler yr erthygl), mae'r UD wedi ehangu ei rhestr o dargedau ar gyfer ei harfau niwclear o 20%. Tydodd y rhestr o 2,500 ym 1995 i 3,000 eleni. Mae 2,260 o dargedau "hanfodol" yn Rwsia. Mae 2,300 o ergydion niwclear yr UD, ar daflegrau ar dir ac ar longau tanfor Trident ar fôr, yn barod i'w tanio ar amrantiad. Mae 98% o'r taflegrau Minuteman III a Peacekeeper ar dir ar rybudd dwy funud i danio. Mae cyfanswm o bedair llong danfor Trident gan yr UD yn hwylio'r moroedd ar unrhyw adeg, dwy ym Môr Iwerydd a dwy yn y Môr Tawel. Mae'r rhestr o dargedau wedi bod yn tyfu yn hytrach na lleihau ers arwyddo'r cytundeb cwtogi ar arfau strategol diwethaf, ATART II, ym 1993.

## Gallai Rwsia ddefnyddio'r bom niwclear gyntaf

Yn mis Mai, mabwysiadodd Cyngor Diogelwch Rwsia athrawiaeth filwrol newydd yn mynnu ar ei hawl i wneud defnydd cyntaf o arfau niwclear *"pe bai bodlolaeth y wlad yn y fantol"*. Roedd yr athrawiaeth flaenorol a ddatblygwyd yn y cyn-Undeb Sofietaidd yn pwysleisio polisi o "ddim defnydd cyntaf" ac ategwyd hynny tan ddiwedd y Rhyfel Oer. Mae Duma Rwsia wedi pleidleisio hefyd i gymeradwyo'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr sydd yn gwahardd profion arfau niwclear 'tanddaearol' ledled y byd. Mae Prydain a Ffrainc wedi cymeradwo'r Cytundeb hwn hefyd, ond nid yr UD.

## NATO yn y llys

Wrth grynhoi yn y Comisiwn Ymchwil Annibynnol i Droseddau Rhyfel NATO yn erbyn Iwgoslafia a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn Efrog Newydd, daeth cyn-Dwrnai Cyffredinol yr UD, Ramsay Clark, i'r casgliad: *"Er mwyn sicrhau dyfodol heddychlon i'n byd a'i bobl, ac amgylchedd sy'n ddiogel i bawb, rhaid i ni roi terfyn ar ryfelgarwch NATO. Rhaid i ni weithio hefyd i atal ras arfau newydd dan nawdd yr UD. Y ddedfryd fwyaf effeithiol y gallai'r tribiwnlys hwn ei thraddodi fyddai defnyddio ei awdurdod i lansio ymgyrch fyd-eang i ddileu NATO. Anogaf y mudiad heddwch ym Mhrydain i ymuno â ni weithio dros heddwch byd-eang ac ymgyrchu i ddileu NATO."* Achosodd gweithredoedd NATO






Brian Kavanagh

farwolaeth bron 2,000 o bobl Iwgoslafia gan adael trais parhaol o'i hol a lluoedd o bobl yn ffoi o Kosovo/a. Yn y Comisiwn, cyhuddwyd holl wledydd NATO o droseddau rhyfel a oedd yn tramgwyddo Siarter y CU, Confensiwn Genefa a chytundebau rhyngwladol eraill, a'r gyfraith ryngwladol.

## Trafferth yng Nghrugion

Ar 1af o Hydref 1998, "arolygodd" grwp Trident Ploughshares orsaf BT Crugion, chwe milltir i'r gogledd o'r Trallwng. Yn ystod yr arolygiad, eglurodd rheolwr yr orsaf fod Crugion yn cael ei rhedeg gan BT ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i bod, fel Rugby, yn danfon trosglwyddiadau VHF i bedwar ban y byd.

Mewn digwyddiad arall, heb ddim cysylltiad â'r un blaenorol, ym mis Mai eleni, mae'n debyg y cafodd cêbl ar un o'r mastiau ei niweidio'n fwriadol. Mae'r heddlu wedi gwrthod gwneud unrhyw ddatganiad swyddogol, ond maent yn parhau i ymchwilio.

Mewn cyfweliad gyda gohebydd o'r Cymro, gwadodd BT fod yr offer yn rhan o'r system gyfathrebu ar gyfer llongau tanfor Trident, er gwaethaf cyfaddediad blaenorol Mr Slocombe, Rheolwr yr Orsaf ym 1998. Nid oes modd yn y byd y gallai'r difrod yng Nghrugion fod yn ganlyniad gweithred TP 2000. Mae holl weithredoedd TP 2000 ar sail bod yn agored ac yn onest, ac mae pob ymgyrchydd TP 2000 wedi ymrywmo i aros yn y fan lle cyflawnwyd gweithred ddiarfogi i dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithred.

### Hen dric gwael:


## BNFL a'r Sefydliadau Arfau Atomig

Mae rheolwyr Sellafield druain yn dal i straffaglu dan bwysau problemau. Dim ond un o blith llu o ddigwyddiadau a danseiliodd unrhyw hyder a fu gan y cyhoedd yn BNFL oedd yr ymgais i ffugio data allforio Tanwydd Ocsidau Cymysg (MOK) i Siapan. Wedi'r sgandal hon, condemniwyd holl agwedd Sellafield at ddiogelwch a gwnaed nifer o reolwyr yn fychod dihangol a'u gyrru o'u swyddi. Yn rhyfedd ddigon, ar Ebrill 1af, cyhoeddwyd fod consortiwm rhwng BNFL a Lockheed Martin (cwmni o'r UD a feirniadwyd gan lywodraeth ry UD am dorri rheolau diogelwch ar safleoedd niwclear) wedi ennill contract i redeg y sefydliadau arfau atomig (SAAau) lle mae ergydion niwclear Trident yn cael eu hadeiladu, eu hadnewyddu, eu cynnal a'u cadw, a'u

datgymalu.
Mae'r swyddogaeth newydd hon i BNFL a Lockheed Martin fel pe tae'n barhad peryglus o draddodiadau'r SAAau. Ym 1999, cafwyd Hunting Brae, cyn-reolwyr SAA Aldermaston, yn euog o ollwng Tritiwm ymbelydrol i nant yn rhedeg i mewni afon Tafwys a'u dirwyo am lygru dau weithiwr pan ollyngwyd Plwtoniwm ar y safle. Mae ymgyrchwyr lleol yn galw am ymchwiliad i'r cant o ddigwyddiadau "Lefel 2" yn gysylltiedig â diogelwch mewn blwyddyn yn Aldermaston. Os yw BNFL yn gobeithio bod â dyfodol ystyrlon, dylent fod yn cefnu ar ailbrosesu a chynhyrchu ergydion niwclear ac, yn hytrach, yn canolbwyntio ar reoli gwastraff a dadgomisiynu; hynny yw, rhoi'r gorau i greu gwastraff niwclear a dechrau clirio'r llanast a adawyd ar ei ôl.

## Penderfyniad ar "Star Wars" yr UD wrth law

Ni phenderfynwyd yn derfynol eto a fydd llywodraeth yr UD yn sefydlu system Amddiffyn rhag Taflegrau (ART) Genedlaethol i'r UD ("Son of Star Wars", chwedl y papurau) a fyddai'n golygu defnyddio Fylingdales a Menwith Hill yn swydd Efrog. Yn yr hydref, bydd yr Arlywydd Clinton yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen i osod taflegrau atal taflegrau yn eu lle a gorsaf radar dargedu anferth ar Ynys Shemya ar ben gorllewinol cadwyn Alewtia yn Alasga.



Rhan gyntaf fyddai hon o system â'r bwriad o "amddiffyn" yr Unol Daleithau rhag taflegrau wedi eu tanio gan wladwriaethau honedig "filain" ac mae'r UD wedi gofyn i Rwsia am gael newid Cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig 1972 (GDB) er mwyn caniatáu adeiladu'r fath system. Mae Rwsia wedi gwrthod caniatâd, gan gwyno y gallai tarian daflegrau'r UD ddileu gwerth braw-ataliol ei harfogaeth niwclear ei hun.
Mae'n hanfodol i'r Arlywydd Clinton wrando ar gyngor y rhestr gynyddol o arbenigwyr a chynghreiriaid sy'n annog iddo dynnu'r penderfyniad ARhT allan o wleidydda blwyddyn etholiad drwy benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynigion peryglus, costus ac aneffeithiol hyn.
Mae'r rheini sy'n ceisio gwerthu'r system yn gweithio'n galed. Mae cyfreithwyr llywodraeth Clinton wedi bod yn llunio papurau cefndir cyfreithiol i ddangos pa gamau yn union fyddai'n tramgwyddo'r cytundeb Gwrth Daflegrau Balistig, er mwyn rhoi mwy o ddewis i Clinton - a mwy o amser iddo benderfynu.
Mae digon o wrthwynebiad pwerus yn yr UD i'r cynigion: cyn-ysgrifenyddion amddiffyn, arweinwyr milwrol, cynghorwyr ar ddiogelwch cenedlaethol, gwyddonwyr, aelodau o'r Gyngres, arbenigwyr ar faterion Rwsiaidd. Mae'r cyn-Arlywydd Jimmy Carter wedi rhybuddio y gallai "mynd ar drywydd system ART" . . . "ddinistrio gwneuthuriad cytundebau rhyngwladol presennol rhwng y prif bwerau."
Mae beirniaid gwyddonol wedi bwrw amheuaeth ar ba mor bosibl yw i un taflegryn fwrw un arall o'r awyr gyda'r dechnoleg bresennol. Dywedir fod Tony Blair wedi dweud fod Ewrop yn eiddgar iawn i weld y Cytundeb GDB yn parhau i gael ei barchu.
Mewn ymgais gwbl sinigaidd i anwybyddu'r amheuon ynglyn â'r dechnoleg, mae Boeing, a enillodd y cytundeb gwerth $1.6 biliwn i ddatblygu'r system, yn mynd i lansio ymgyrch hysbysebu wedi ei hanelu at y cyhoedd a'r bobl ar y tu fewn sy'n dylanwadu ar y Gyngres, i hyrwyddo'r syniad o ART.
**heddweithredu:** ym mhob ateb a gafwyd i lythyron gan aelodau CND, nid yw swyddogion y llywodraeth wedi datgan yn glir y byddai'r llywodraeth Brydeinig yn gwrthwnebu estyniad i Fylingdales pe bai i'r UD benderfynu datblygu ei system ART. Rhowch wybod iddyn nhw beth yn union yw'ch barn ynglyn â Strategaeth Amddiffyn Rhag Taflegrau'r UD a fyddai'n gwneud Prydain yn darged trawiad cyntaf gan unrhyw wladwriaeth fyddai am ymosod ar system sydd â'r bwriad o amddiffyn yr UD yn unig. Diwrnod Rhyngwladol o weithredu yn erbyn Star Wars ac ART ddydd Sadwrn 7fed o Hydref, cysyllter ag CND Swydd Efrog: 01274 730795.

## Auf Weidersehen niwcs?

Tra bod yr Almaen wedi cyhoeddi, o'r diwedd, ei bod am "ddileu yn raddol" ei gorsafoedd ynni niwclear presennol, bydd llawer o aelodau'r Blaid Werdd yn yr Almaen yn siomedig iawn ynghylch dyddiad arfaethedig cau'r orsaf olaf, sef 2018. Cytunodd y Blaid Werdd i dderbyn y dyddiad hwnnw yng nghynhadledd eleni, ac ymddiswyddodd llawer o aelodau wedi'r penderfyniad hwn. Esgorwyd ar y Blaid Werdd, sydd mewn clymblaid â'r SDP ar hyn o bryd, gan fudiad mudiad gwrth-niwclear y 70au. Cyn etholiadau 1998, roedd y Gwyrddion wedi addo cau gorsafoedd niwclear yn yr Almaen pe baent yn ennill grym. Mae'r lobi o blaid ynni niwclear yn yr Almaen yn gryf hefyd, a gallai'r oedi am 18 mlynedd roi'r rhyddid lle i lywodraeth yn y dyfodol i wrthdroi'r polisi pe bai'r hinsawdd gwleidyddol yn newid.

## Gorsaf ynni niwclear Wylfa mewn trybini

Mae'r ddau adweithydd yn dal yn segur oherwydd problemau "technegol". Yn ôl ffynonellau swyddogol mae problemau gyda'r gwaith asio ar y pibellau oeri yn ogystal â "chrafiadau" ar y pibellau tanwydd - rhai newydd sbon y llynedd! Bydd paratoi achos o blaid ailgychwyn yr adweithyddion hyn, a'i osod ger bron yr Arolygaeth Niwclear yn cymryd dau fis. Os bydd angen gwaith pellach, yna mae oedi pellach yn anorfod. Mae bod â gorsaf segur yn costio £400,000 y dydd o ran colled refiniw i BNFL. Problemau gydag asiadau ar yr adweithydd arweiniodd yn y pen draw at gau atomfa Trawsfynydd.

Mae Joe Jacob, Gweinidog Menter Iwerddon, wedi galw am gau Wylfa am resymau amgylcheddol a diogelwch. Y cwbl wnaeth AS ac AC Plaid Cymru Ynys Môn, Ieuan Wyn Jones, oedd condemnio cais llywodraeth Iwerddon a mynnu fod rhaid ailagor Wylfa er mwyn diogelu swyddi! Yn y cyfamser, mae Dr David Assinder, o Ysgol Astudiaethau Cefnfor Prifysgol Bangor, wedi rhybuddio'r awdurdodau yng ngogledd Cymru i beidio â bod mor ddi-hid ynghylch peryglon i iechyd a'r amgylchedd o lygredd ymbelydrol o unrhyw ffynhonnell.

## Chernobyl

Dywedodd Adi Roche, Cyfarwyddydd Project Plant Chernobyl yn Iwerddon, wrth sôn am daith yn ddwfn i berfedd yr ardal lygredig ar achlysur 14eg mlwyddiant trychineb niwclear Chernobyl, a alwodd sylw'r cyfryngau yn Iwerddon i ganlyniadau parhaus trychineb niwclear:

*"Rwyf newydd weld gwlad sydd ar ei gliniau, yn ymdrechu i frwydro gelyn anweledig ymbelydredd, gelyn sydd yn araf ddinistrio pobl. Drwy'r bobl y cwrddon ni â nhw ar y daith hon, cawsom weld gwir gost Chernobyl ac ni allwn ond dyfalu beth fydd y dyfodol i bobl Belarws, Gorllewin Rwsia ac Wcraen. Ddylen ni byth anghofio Chernobyl."* Ysgrifennodd Kevin Barry, yn yr Irish Examiner: *"Yn ardal Gomel (Belarws), yng nghalon ardal yr ymbelydredd, mae'n anioddefol o llwm. Mae ymdeimlad o ofn a phryder am y dyfodol, a'r awydd cynhenid i wadu beth sy'n digwydd yn cyfuno'n dduwch marwol. Gallwch ei deimlo yn yr awyr."*

## Problemau adweithyddion Windscale


Ataliwyd y gwaith o ddadgomisiynu adweithyddion 1 a 2 Windscale yn Sellafield, a adeiladwyd tuag at ddiwedd y 1940au i gynhyrchu plwtoniwm at ddefnydd milwrol. Ar ôl y tân ym 1957 a wasgarodd radio-niwclidau yn eang, rhoddwyd y gorau i gynhyrchu plwtoniwm yn adweithydd rhif 1. Yn awr, mae'r ofn for "egni Wigner" yn crynhoi yn yr arafwr graffid yn peri problemau pellach. Yn lle defyddio argon i gadw'r adweithyddion yn oer, arafethir defnyddio dwr yn awr. Mae hyn yn peri problemau pellach gan nad yw llestr yr adweithydd yn dal dwr. Mae canlyniadau'r arbrawf niwclear hwn yn debyg o effeithio ar gynlluniau dadgomisiynu adweithyddion eraill sy'n defnyddio graffid i arafu'r adwaith, fel Trawsfynydd ac Wylfa.

# Yr Undeb Ewropeaidd - cynghrair arfau niwclear?

Caiff cynigion o blaid datblygu polisiau tramor a milwrol i'r Undeb Ewropeaidd (UE) a ffurfio "Cyrchlu Ymateb Buan Ewropeaidd" eu trafod yn uwch-gynhadledd yr UE ym mis Rhagfyr 2000.

Disgwylir y caiff cangen filwrol answyddogol yr UE, Undeb Gorllewin Ewrop (UGE) ei chyfuno'n ffurfiol â'r UE.

Mae Prydain a Ffrainc wedi awgrymu y carent weld eu harfogaethau niwclear "wrth galon Diogelwch Ewropeaidd". Mae gan bum gwladwriaeth UE arall brofiad o gynllunio ar gyfer rhyfel niwclear yn sgîl eu hymwneud ag arfau niwclear yr UD oedd wedi eu lleoli yn eu gwledydd.



Yn ôl arolygon barn diweddar, mae 87% o Ewropeaid am weld Ewrop ddi-niwclear.



**heddweithredu:** Mae digon o amser o hyd i sicrhau na fydd uwch-gynhadledd Rhagfyr 2000 yn caniatáu militareiddio'r Undeb Ewropeaidd. Cysylltwch â'ch ACau, ASau ac ASEau a gofyn iddynt gyfleu eich pryderon wrth y llywodraeth Brydeinig. Mwy o wybodaeth gan Paul Hawkes, CND Teifi/Preseli (01239) 614856.

## Swn gwarthus arian budr: Plant Irac yn dal i farw


BrianKavanagh

Nid yw polisïau tramor Prydain a'r Unol Daleithau yn amlwg ac yn agored, a phur anaml y datgelir nod eu gweithgareddau i'r cyhoedd. Mae rhannau helaeth o weithgareddau'r Swyddfa Dramor Prydain a'i phrosesau creu polisi tramor yn gaeëdig, heb ddim arolygaeth gyhoeddus. Dyw hi byth yn fater hawdd deall beth yn union yw strategaeth y Gorllewin, ond weithiau cawn gipolwg ar beth sy'n digwydd.

Un enghraifft ddiweddar o hyn oedd yr argraff a roddodd y llywodraeth Brydeinig i ni ei bod, oherwydd pwsau ymgyrch Jiwbili 200, yn mynd i ostwng dyledion y gwledydd tlotaf o gan biliwn o ddoleri. Fel mae'n digwydd, dyna'r union swm nad oedd yn cael ei ad-dalu, felly, mae trethdalwyr y Gorllewin yn awr yn talu'r cyfalafwyr byd-eang a hapfasnachwyr arian am eu buddsoddiadau gwael hwy, a thrwy hynny'n arbed y cyfalafwyr, nid y Trydydd Byd. Mae dyled y Trydydd Byd yn rhyw $2,500 biliwn ac yn dal i dyfu. Mae ad-daliadau'r Trydydd Byd, yn cynnwys y llog, wedi bod yn $200 biliwn y flwyddyn am y rhan fwyaf o'r ddau ddegawd diwethaf.

Daeth y rhesymau dros y sancsiynau yn erbyn Irac yn gliriach yn ddiweddar, pan ddatgelodd y CU ffigurau ar gyfer taliadau iawndal. O dan y rhaglen "Olew am Fwyd", mae Irac wedi gwerthu gwerth $29 biliwn o olew, ond wedi derbyn dim ond gwerth $7 biliwn o nwyddau fel cymorth dyngarol, sef $64 y person y flwyddyn i ddarparu popeth sydd arnyn nhw ei angen, yn cynnwys bwyd, dosbarthu bwyd, iechyd, olew, darnau sbar, trydan, dwr a charthffosiaeth, amaeth, addysg, ac atgyweirio'r seilwaith. Defnyddiwyd gweddill yr arian gan y CU i dalu am ei weithgareddau yn Irac, yn cynnwys UNSCOM (yr arolygwyr arfau) a'r hawliadau iawndal yn deillio o'r cyrch ar Kuwait.

Mae Comisiwn Iawndal y CU yn awr yn datgelu ei fod, er 1991, wedi derbyn rhyw 2.6 miliwn o hawliadau gan bron gant o lywodraethau yn ceisio iawndal o fwy na $300 biliwn. Mae'r hawliadau yma mor fawr fel nad oes fodd yn y byd y gellir adhawlio'r arian, yn cynnwys taliadau llog, ac eithrio drwy ymestyn sancsiynau am gyfnod o fwy na chan mlynedd. Mae gan y Gorllewin bellach ddull cyfleus o fynnu arian gan bobl Irac am y dyfodol rhagweladwy, ac mae bellach yn eglur pam mae sancsiynau'n dal mewn grym ddeng mlynedd wedi i "Ryfel y Gwlff" ddod i ben.

**heddweithredu:** (I'r rheini sy'n ymddiddori yn y mater, mae manylion pellach ar gael ar www.unog.ch.uncc a www.un.org/debts/oip/latest/basic/figures.html neu ffoniwch Dave ar (01994) 419678. Dave Rolstone

Trident Ploughshares 2000

# Bodau dynol yn ymddwyn yn gyfrifol



### Yn yr Alban

O'r diwedd, mae hi'n dechrau gwawrio ar yr awdurdodau nad ydyn ni'n mynd i ddiflannu. Yn yr Alban, mae achosion llys yn rhygnu yn eu blaen yn sgil gweithredoedd y llynedd, am darfu ar yr heddwch, fel arfer, niwed maleisus neu dorri'r is-gyfreithiau milwrol yn Faslane a Coulport. Mae'r amddiffyniadau'n amrywiol ac yn niferus, o gyflwyniad llawn o'r achos o dan y gyfraith ryngwladol pam mae Trident yn anghyfreithlon, i ddadleuon moesol syml. Mae dadleuon diddorol hefyd yn ymwneud â chynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith yr Alban o ganlyniad i ddatganoli. Nid amddiffyniadau technegol mo'r rhain, ond dadleuon sy'n ymwneud â hawliau sifil sylfaenol fel yr hawl i brotestio'n heddychlon a dyletswydd awdurdodau sy'n erlyn i eirio cyhuddiadau troseddol mewn termau penodol. Mae'r 185 a restiwyd yng ngwarchae mis Chefror wedi denu tri math o ymateb gan y Procurator Fiscal (yr erlynydd lleol). Gwysiwyd rhai o'r rheini a restiwyd i ymddangos ger bron llys a bydd bron pob un o'r rhain yn pledio'n ddieuog. Mae rhai achosion yn deillio o'r digwyddiad eisoes wedi eu trefnu ar gyfer yr hydref, yn cynnwys achos Tommy Sheridan, Aelod o Senedd yr Alban. Mae achos Tommy ar y 4ydd o Hydref. Hysbyswyd eraill drwy lythyr na chânt ei dwyn ger bron llys y tro yma, ond os pechan nhw eto . . . Cynigiwyd i eraill eto y cyfle i dalu dirwy benodol, a wrthodwyd gan bawb, hyd y gwyddom. Mae'r llysoedd lleol yn amlwg yn teimlo dan bwysau, fel sy'n cael eu amlygu gan y cyfnodau hirach a hirach mae'n ei gymryd i brosesu gwrandawiadau ple, gwrandawiadau canolradd a chynnal yr achosion llys eu hunain.

### . . . a Lloegr

Nid yw'r rhan fwyaf o'r 55 person a restiwyd yn Aldermaston wedi cael eu cyhuddo hyd yma, ond maent ar fechnïaeth sy'n golygu fod rhaid iddynt nhw alw yr yr orsaf heddlu leol o bryd i'w gilydd. Y rheswm dros hynny yw y bydd yr heddlu'n defnyddio'r cyfnod rhwng dwyn pobl i'r ddalfa a'u cyhuddo i ymchwilio ymhellach i'r "drosedd". Gan i'r rhan fwyaf gael eu restio am rwystro'r ffordd, dyw hynny ddim yn dal dwr gan mai mater syml iawn fyddai darganfod beth yn union oedd y ffeithiau. Cyhuddwyd y rheini a dorrodd y ffens o niwed maleisus ac un o amodau eu mechnïaeth nhw yw bod rhaid iddynt gadw draw o'r sefydliad. Bydd y prosesau llys hyn yn digwydd yn erbyn cefndir nifer o achosion eraill yn Lloegr, yn enwedig eiddo Rosie James a Rachel Wenham yn Llys y Goron, Manceinion, o'r 11eg o Fedi ymlaen, am eu gwaith da ar fwrdd y llong danfor Trident Vengeance ar y 1af o Chwefror 1999.

### Cyfiawnder annaturiol


Bydd y cynnydd ym mhrosesau'r llysoedd yn arwain yn anorfod at ddedfrydau o garchar a chyrchoedd gan feilïaid am beidio â thalu dirwyon a gorchmynion iawndal. Mae hyn eisoes yn effeithio ar grwp cefnogi Canolbarth Lloegr. Torrodd y grwp hwn ffens Aldermaston yr haf diwethaf a chawsant orchmynion i dalu iawndal sylweddol. Mae Llys Ynadon De Swydd Gaerloyw eisoes wedi danfon beilïaid at Roger Franlin. Ymddangosodd Marilyn Yeo yn llys ynadon Loughborough ar yr un mater. Diddorol nodi i'r llys dalu rhywfaint o sylw i'w datganiad. Yn lle danfon beilïaid i gartref Marilyn i adennill y costau, neu ei danfon i'r carchar, dywedodd y llys y byddai'n danfon ei datganiad at y Sefydliad Arfau Atomig a cheisio ei farn fel "y dioddefwr" yn yr achos cyn penderfynu. Meddai Marilyn "Dwi ddim yn bwriadu talu cyfran o'r costau atgyweirio. Mae SAA Aldermaston yn cynhyrchu'r ergydion niwclear a ddefnyddir gan longau tanfor niwclear Trident Prydain sydd mor ddinistriol fel nad ydynt yn gydnaws â chyfraith Brydeinig a rhyngwladol ar ryfel."

### Mwy o fwrlwm

Ac mae mwy o fwrlwm ar y gorwel, o fewn grwpiau cefnogi unigol a'n hymdrechion ni oll ar y cyd. Wrth i Heddwch fynd i'r wasg, rydym yn edrych ymlaen at y gwarchae mawr ar Faslane ar y 1af o Awst (ynghyd â therfyn y daith gerdded heddwch o Aldermaston) a'r gwersyll heddwch diarfogi 14-diwrnod yn Coulport wedi hynny. Mae gennym 169 sydd wedi ymrwymo, ond mae ymrwymwyr newydd yn cael eu hyfforddi ac yn cytuno i weithredu beunydd. Mae ein cefnogwyr seneddol yn awr yn 71 o nifer, sy'n galonogol iawn. Dydyn ni ddim yn mynd i ddiflannu.

***David Mackenzie Trident Ploughshares 2000***

**heddweithredu:** Mae'r gwarchae torfol "Cau Faslane" ar y 1af o Awst am 7am. Gellwch ymuno â'r weithred eistedd ar y ffordd wrth y glwyd, neu gefnogi'r weithred drwy sefyll ger llaw heb fod mewn perygl o gael eich restio. Cynllunio a hyfforddi ar y 31ain Gorffennaf. Bydd Gwersyll Ploughshares yng nghoedwig Peaton, Coulport yn para yno tan Awst 15fed. I gael gwybod mwy, ffoniwch David Mackenzie (01324) 880744 neu CND yr Alban (0141) 423 1222.




*Garddwriaeth herwfilwrol Faslane Mai 2000*

# Cymru a'r byd - economi foesol

## Datblygiad cynaliadwy

Ray Davies, Phil Kingston a ffrind. BAe Glascoed May 2000




Mae Cymru, drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi ymrwymo i ddatblygiad cynaliadwy. Fodd bynnag, os yw hyn i olygu unrhyw beth, rhaid edrych ar y modd mae economi Cymru yn effeithio ar bobl y tu hwnt i'w ffiniau. Gallai'r Cynulliad gymryd nifer o gamau ymarferol, na fyddai'n costio llawer iawn, i ddangos ei fod o ddifri ynglyn â hyn.

## O fasnach deg i fasach foesol

Eisoes mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo masnach deg drwy sicrhau ei fod yn defnyddio cynnyrch masnach deg wrth arlwyo a dangos ei gefnogaeth i fasnach deg drwy lansio Fforwm Masnach Deg Cymru. Fodd bynnag, rhaid symud y drafodaeth ymlaen hefyd i gynnwys y syniad o fasnach foesol, h.y., dylai'r Cynulliad annog cwmnïau Cymreig i ymddwyn mewn modd moesol yn yr hyn a gynhyrchant a'r modd maent yn ei gynhyrchu.

## Cefnu ar arfau

Awgrymodd rhaglen BBC Cymru (The Point, 5 Tachwedd 1999) yn ddiweddar fod 5,000 o swyddi yng Nghymru ynghlwm wrth gynhyrchu arfau. Er fod hyn yn gor-ddweud o bosib, mae'n llai na 0.5% o gyfanswm nifer y swyddi yn yr economi Gymreig yn ei chrynswth (dros filiwn). Dylai'r Cynulliad ddatgan ei fod yn credu fod cynhyrchu arfau yn mynd yn groes i'r syniad o ddatblygu cynaliadwy, a chymryd camau brys i roi'r gorau i hyrwyddo'r diwydiant arfau. Yn y tymor hwy, gallai'r Cynulliad helpu i ddatblygu strategaeth i droi cynhyrchu arfau yn gynhyrchu sifil yng Nghymru.

## Buddsoddi glân

Gallai'r Cynulliad hefyd gymeradwyo amcanion yr ymgyrch dros Fuddsoddi Glân sy'n ceisio symud cronfeydd pensiwn a chronfeydd eraill oddi wrth arfau ac i mewn i ddulliau mwy moesol o fuddsoddi.

## Cwmnïau sy'n atebol

Mae'r Cynulliad wedi rhoi cyhoeddusrwydd mawr i'r ffaith fod ganddo gyfrifoldeb cyfreithiol i ymgynghori â busnesau. Ein gobaith ninnau yw y bydd y Cynulliad yn datblygu fel y bydd ganddo'r hawl gyfreithiol i wneud cwmnïau Cymreig yn fwy atebol ac agored eu busnes. Gall hyrwyddo codau ymddwyn gyda chynhyrchwyr sy'n buddsoddi mewn gwledydd tramor, fel Côd Sylfaenol y Fenter Fasnachu Foesol* a sicrhau fod y codau hynny'n cael eu dilysu'n annibynnol. Mae achos cryf hefyd o blaid cyllido ymchwil penodol ar weithgareddau cwmnïau Cymreig mewn gwledydd tramor, fel y gellir gwneud eu gweithgareddau yn gwbl hysbys i'r cyhoedd.

## Yr amgylchedd

Ystyr economi gynaliadwy yw dysgu byw o fewn ein modd. Fel y dywedodd yr NEF wrth y Cynulliad yn ystod y drafodaeth ar ddatblygu cynaliadwy yr hydref diwethaf, "Os ydych chi eisiau datblygu cynaliadwy, peidich â gosod targedau rhy uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd ... ansawdd, nid maint, sy'n cyfrif". Dylai pob penderfyniad economiadd gan y Cynulliad ystyried eu heffaith ar yr amgylchedd rhyngwladol, ac nid ar Gymru yn unig.

**Mae'r Fenter Fasnachu Foesol yn cynnwys prif gwmnïau'r Stryd Fawr, mudiadau fel CAFOD, Cymorth Cristnogol ac Oxfam, cyd-ffederasiynau undebau llafur Prydeinig a rhyngwladol, ac fe'i cefnogir gan yr Adran dros Ddablygu Rhyngwladol. Mae'r Côd Sylfaenol yn cynnwys yr egwyddorion a ganlyn: a) hawl i ddewis cyflogaeth heb orfodaeth; b) parch at y rhyddid i gymdeithasu a'r hawl i fargeinio torfol; c) fod amodau gwaith yn ddiogel ac yn lân; ch) na ddylid defnyddio llafur plant; d) y telir cyflog byw digonol; dd) nad yw oriau gwaith yn ormodol; e) na cheir gwahaniaethu annheg; f) y darperir gwaith cyson; ff) na chaniateir triniaeth greulon neu annynnol.*

Fersiwn wedi ei golygu yw'r uchod o adroddiad Cynefin y Werin, "Cymru a'r Byd - Economi Foesol". Mae'r adroddiad newydd hwn yn codi cwestiynau parthed a ddylai'r Cynulliad gefnogi cwmnïau fel BAe Systems yn Broughton. Mae Cynefin y Werin, y mae CND Cymru yn aelod ohono, yn gofyn i'r Cynulliad ystyried terfynu cefnogaeth ariannol i gwmnïau sy'n cynhyrchu arfau, hyd yn oed y rheini sy'n gwneud gwaith sifil hefyd, fel BAe Systems. Os yw'r Cynulliad o ddifri ynglyn â'i ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, bydd yn osgi buddsoddi mewn cwmnïau fel BAe Systems. Mae Cynefin y Werin yn gobeithio y bydd y ddogfen yn help i ennyn trafodaeth, ac mae'n gobeithio cwrdd â llefarydd economaidd o bob plaid yn y Cynulliad.

**heddweithredu:** Am fwy o wybodaeth am Cynefin y Werin neu am gopïau o'r adroddiad, cysylltwch â Stephen Thomas ar (029 2022 8549) neu Ben Gregory (01286 882 359) e-bost benica@gn.apc.org

# Rhaid cau gorsaf niwclear y Wylfa rwan !

Ers Tachwedd 1999, cododd un argyfwng ar ôl y llall yn y Wylfa:

1. Tachwedd 1999 - gollwng ferrous sulphate i'r môr. Y môr yn troi'n oren. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried erlyn BNFL am y ddamwain hon.

2. Ionawr 2000 - Cau'r ddau adweithydd yn y Wylfa yn dilyn methiant grab codi tanwydd o'r adweithydd.

3. Ebrill 20, 2000 - Tra bod un adweithydd yn cael ei archwilio, gwelwyd marciau mewn sianel danwydd. Cauwyd yr adweithydd arall ar unwaith oherwydd hynny. Y broblem yn y lle cyntaf oedd plygiau wedi syrthio o'u lle yn y sianelau. Dirywiad yng ngraffit crombil yr adweithydd oedd yn gyfrifol am symud y plygiau. Erbyn canol Mai, cyfaddefodd BNFL bod ganddynt broblemau gyda weldiau boileri'r Wylfa. Dyna'r math o broblemau a achosodd cau Trawsfynydd.

4. Mai 18, 2000 - Gollyngwyd 5000 galwyn o sodiwm hypochlorite i'r môr o danciau'r Wylfa. 'Bleach' cryf yw'r cemegyn yma. Gwelwyd gwymon wedi troi'n wyn ar y traeth, a phaent glâs ar goesau 'jetty' yn ymestyn i'r môr wedi troi'n wyn. Nid oedd y gollyngiad yma yn un ymbelydrol, ond nid yw'r fath ddamwain yn rhoi hyder i neb yn nhrefniadau diogelwch y Wylfa.

Ar ben hyn oll, mae gan BNFL y wyneb i gyhoeddi yr hoffent estyn oes y Wylfa hyd 2016 neu 2020, a'i chwaer orsaf Oldbury sy'n agos at Bont Hafren ar ochr Lloegr hyd 2014. Gwallgofrwydd peryglus yw'r bwriad yma gan fod estyn oes y ddwy orsaf yn dibynnu ar gael defnyddio tanwydd MAGROX.

Uraniwm ocsid yw'r tanwydd hwn sydd a thymheredd tanio uwch na'r tanwydd Magnox presennol.

Ni chafodd adweithyddion y Wylfa nac Oldbury eu cynllunio i weithredu gyda thanwydd anoddach i'w reoli fel MAGROX. Cymharwyd y syniad o lwytho MAGROX i'r hen adweithyddion hyn â rhoi petrol car Fformiwla 1 mewn hen groc o gar. Y gwir yw bod BNFL wedi cydio yn y syniad hwn i geisio twyllo'u gweithwyr eu hunain bod gobaith parhau i gynhyrchu trydan yn y Wylfa ac Oldbury.

**heddweithredu**: Mae'r ymgyrch i gau gorsafoedd Wylfa ac Oldbury yn un i Gymru gyfan. Ysgrifennwch at y canlynol i bwyso am gau'r ddwy orsaf a diddymu'r bwriad hollol anghyfrifol gan BNFL i ddefnyddio tanwydd MAGROX yn y Wylfa ac Oldbury.
1.Aelodau Seneddol a Chynulliad Cenedlaethol.
2.Asiantaeth yr Amgylchedd, Rivers House, Heol Fortran, Parc Busnes, Llaneirwg Caerdydd CF3 0EY 3. Arolygaeth Sefydliadau Niwclear, (N.I.I.) St. Peter's House, Stanley Precinct, Bootle, England L20 3LZ, I gael mwy o wybodaeth am ymgyrch wrth-niwclear mudiad PAWB yn Ynys Môn, cysylltwch â: Sioned Huws - (01286 650618) neu Dylan Morgan - (01248 750218)




# Busnes Breudeth

Anodd coelio, ond mae hyd yn oed hen ymgyrchwyr yn cael mynd ar wyliau weithiau ac ym mis Ebrill, ein tro ni oedd hi. Roedd y gwanwyn yn sir Benfro yn canu neges "heddwch": y gwylanod yn bloeddio'u sloganau wrth nythu, heddwch briallu Mair a chlustog Fair ar y clogwyni, y traethau hir fel baneri, a Mor Iwerydd yn cofleidio'r cwbl. Ond ni allai'r un hen freuddwydiwr oedd wedi aros yng Ngwersyll Heddwch Breudeth erioed neu wedi cymryd rhan mewn gwarchae ar y glwyd, wedi ceisio tynnu sgwrs yn ofer â milwyr Americanaidd yn eu capiau pêl-fas, neu wedi dringo'r ffens a rhedeg i mewn i'r gwersyll fyth fod wedi peidio â dilyn yr arwydd ar y ffordd i Dyddewi: "Parc Busnes Breudeth'. Heb feddwl dwywaith, dyma droi i'r dde. A dyna lle'r oedd, â'i do gwastad, heb ffenestri, y targed 'trawiad cyntaf', gorsaf olrhain llongau tanfor Llynges yr UD yn yr 80au, yn cael ei rentu allan mewn unedau fel parc busnes yn yr 21ain ganrif. Dal yn salw, yn frown, yn wrymiog, a dim calon yn perthyn i'r lle. Roedd y glwyd ar agor, felly dyma ni'n gyrru i mewn.

Roedd popeth fwy neu lai'r un fath ond eto mor wahanol. Dyna'r ffens roedden ni wedi bod drwyddi neu drosti. Mor fendigedig o wag, mor dawel - dim ond y gwynt yn y gwifrau, gwylanod ar y to. Roedd gofalwr y Parc yn garedig, â diddordeb, yn gymwynasgar, yn falch i'n "croesawu ni nol" a dangos y lle i ni. Na, meddai, doedd dim byncars, dim stafelloedd tanddaearol. Yr unig dyneli tanddaearol oedd y rheini sy'n dal miloedd o fetrau o geblau trwchus cymhleth yn ymestyn ymhell allan i'r mor. Dangosodd y prif adeiladau gwrth-flast i ni. Roedd pob awgrym o beth oedd yn y "caledwedd" wedi cael eu dileu pan gaewyd y gwersyll ym 1995, gan adael dwy stafell enfawr, "ymennydd" yr adeilad. Byddai rhai cannoedd o staff milwrol yr UD wedi bod yn gweithio yma ar un adeg, lle'r oedd dim bellach ond storfa dodrefn swyddfa. Gadawodd y gofalwr ni i grwydro - dringodd Rod ar y to lle'r oeddem wedi dringo, bron ugain mlynedd yn ôl, a lle roedd milwyr â gynnau peiriant wedi eu lleoli yn ystod un brotest, rhag ofn cyrch gan frawychwyr o Libya. Doedd dim ar ôl ond gwaddol paratoadau at ryfel, cawl annifyr o weithdai a stafelloedd generaduron, yng nghanol sbwriel a llanast byddin ymadawedig.

Yn nes ymlaen, nôl ar y traeth, meddwl cymaint o drueni yw hi nad yw etifeddiaeth Breudeth a'r ffaith fod y ffens yn Greenham wedi ei dymchwel yn llwyr o'r diwedd yn gofeb i ffolineb cred anghywir a gwrthodedig mewn polisi niwclear o "fraw-ataliaeth", hiliaeth ac ymdeimlad di-sail o uwchraddoldeb. Gwaetha'r modd, y cwbl sydd wedi digwydd yw bod y llanast a'r ynfydrwydd wedi symud i fannau eraill. Crwydrodd ein meddyliau at, ymhlith llawer peth arall, gwersyll milwrol anferth yr UD, "Camp Bondsteel", sy'n cael ei adeiladu yn Kosovo, y modd mae lluoedd milwrol yr UD yn anrheithio Puerto Rico, y gwaith sydd yn mynd rhagddo ar ddiweddaru Fylingdales a Menwith Hill yn swydd Efrog, a'r tebygrwydd, nes i lywodraethau ailasesu ystyr heddwch, diogelwch,cyd-ddibyniaeth,ymddiriedaeth a chynaliadwyedd, y bydd yr holl brosesau niweidiol o fygwth, gormesu a rhyfela yn mynd yn eu blaen. Doedd fawr o fusnes yn y Parc, ond mae un peth yn sicr - roedd fil gwaith gwell na phrysurdeb paratoi at ryfel.

***Jill Stallard***

# Ymgyrchu Diweddaraf

## Arfau niwclear - testyn pryder i Gymru

Trefnwyd cyfarfod gan CND Llandrindod yn adeilad y Cynulliad yng Nghaerdydd ar yr 17eg o Fai i drafod effeithiau arfau niwclear Trident Prydain ar gysylltiadau rhyngwladol. Fe'i cadeiriwyd gan Kirsty Williams (AC) ac anerchwyd gan Rhodri Thomas (AC), Paul Rogers (Athro'r Gyfraith yn Bournemouth), Richard Edwards (AC) ac Angie Zelter (gweithredydd TP2000). Canolbwyntiai'r anerchiadau a'r trafodaethau ar gyfreithlondeb arfau niwclear, rhan arfau niwclear mewn cysylltiadau rhyngwladol, cyfreithlondeb gweithredu unionyrchol didrais, a phwysigrwydd rhyngwladol creu ardaloedd di-niwclear. Galwyd ar y Cynulliad hefyd i gymeradwyo datganiad Cymru ei bod yn wlad ddi-niwclear, a chydnabod y problemau a achosir gan wastraff niwclear ymbelydrol.

## Tipyn o helbul yn BAe Glascoed

Ar ôl iddo gael ei restio ar Fai'r 4ydd yn ffatri arfau British Aerospace (BAe) yng Nglascoed yn ne-ddwyrain Cymru, dywedodd Ray Davies, un o Gynghorwyr Sir Llafur Caerffili ac Is-gadeirydd CND Cymru wrth y papurau newydd "ein bod, drwy dorri'r gyfraith Brydeinig, yn defnyddio ein hawl foesol i gynnal y gyfraith ryngwladol." Restiwyd Ray a Phil Kingston o Benarth yn ystod y weithred, rhan o Ddiwrnod Gweithredu'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) yn erbyn BAe Systems a gynhaliwyd yr un pryd â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y cwmni yn Llundain. Yng Nglascoed, eisteddodd protestwyr yn heddychlon ar y ffordd i atal y shifft gynnar rhag mynd i mewn i'r gwaith. Dosbarthwyd taflenni i'r gweithwyr yn egluro sut mae allforiwr arfau mwyaf Prydain, BAe, yn porthi gwrthdaro yng Nghanolbarth Affrica, Indonesia, Zimbabwe a rhannau eraill o'r byd. Roedd y protestwyr yn cynnwys Côr Cochion uchel-ei-lais, Crynwyr, aelodau CAAT ac CND Cymru. Cynhaliwyd gweithredoedd eraill yng Nghaeredin, Bryste, Nottingham a Llundain.

Yn y gwanwyn eleni, yn gwbl groes i ysbryd Datganiad y Gymru Ddi-niwclear, cafodd ffatri BAe Glascoed, ynghyd â Birtley, ger Bryste, ran o gytundeb gwerth hyd at £100 miliwn i gynhyrchu bomiau tanciau wraniwm hesb CHARM 3 ar gyfer y fyddin Brydeinig.




## CND Cymru yn mynd i Aldermaston

Cymerodd criw da o brotestwyr o Gymry ran yn ngwarchae Trident Ploughshares ar ffatri arfau niwclear Aldermaston yn Berkshire ar Fai'r 17eg. Cafodd Dave a Ginger Rolstone o'r Efailwen, Ray Davies o Gaerffili, Sarah Isaacs o Langamarch, a Mary Millington o Gasnewydd oll eu restio a'u cyhuddo o droseddau yn amrywio o rwystro i niwed troseddol (addurno arwydd ar glwyd). Cafodd 42 o gyfanswm o 150 o brotestwyyr eu restio. Roedd rhai wedi eu cadwyno eu hunain wrth ffensys, ac eraill wedi eistedd ar y ffordd. Adeiladodd dau grwp ddau drybedd mawr i gau'r mynedfeydd i'r ffatri fomiau. Dywedodd llefarydd ar ran Trident Ploughshares, *"Mewn geiriau plaen, mae SAA Aldermaston yn gwneud yr arfau ar gyfer llofruddiaeth dorfol. Mae'n rhan hanfodol o'r system arfau niwclear Trident a gynhelir gan y llywodraeth Brydeinig yn gwbl groes i gyfraith ryngwladol. Mae'r llywodraeth yn gwrthod cau'r lle ofnadwy hwn, felly cyfrifoldeb dinasyddion cyfrifol yw gwneud hynny a allant i atal ei weithgareddau troseddol. Mae gweithredwyr Trident Ploughshares yn benderfynol o chwarae eu rhan."*

heddweithredu: am ragor o wybodaeth, neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau Trident Ploughshares 2000 eraill, cysylltwch â TP2000 (01603) 611953, Ray Davies neu Sarah Isaacs (cysylltiadau, tud. 14).

## Arolwg Barnwrol i herio cynhyrchu ergydion Trident

Cafodd yr ymgyrchydd heddwch Emanuela Marchiori a'r Grwp Ymwybyddiaeth Niwclear ganiatâd i ddwyn achos am Arolwg Barnwrol i herio'r ffaith fod ergydion niwclear Trident yn dal i gael eu cynhyrchu. Bydd yr Arolwg Barnwrol yn herio penderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd i awdurdodi'r Sefydliadau Arfau Atomig (SAAau) yn Aldermaston a Burghfield ger Reading yn Berkshire i ollwng gwastraff ymbelydrol..

Mae penderfyniad AyrA, a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2000, yn galluogi consortiwm anesmwyth BNFL, Lockheed Martin a Serco i redeg y safleoedd. Mae cynhyrchu ergydion, dadgomisiynu a'r holl wastraff a gynhyrchwyd yno ar hyd y blynyddoedd yn golygu fod deunydd ymbelydrol yn gollwng i'r awyr, y system garthffosiaeth leol, afonydd a nentydd lleol, ac afon Tafwys ar hyd pibell ddeunaw cilometr Pangbourne. Ni roddwyd cyfiawnhad priodol erioed dros ganiatáu gollwng ymbelydredd o'r safleoedd yn Aldermaston a Burghfield lle gwneir gwaith ymchwil, dylunio, datblygu a chynhyrchu ergydion niwclear Trident, a chynnal a chadw. Nid yw AyA yn meddwl fod y deunydd a ollyngir yn peryglu iechyd neb, ond mae cymunedau lleol, â phob cyfiawnhad, yn pryderu fod holl ddeunydd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn crynhoi, yn llygru'r amgylchedd ac y gallai fod yn fygythiad tymor-hir i iechyd y cyhoedd.

Pan glywodd fod yr Arolwg wedi cael ei ganiatáu, meddai Emanuela Marchiori: *"Datganodd Llys Cyfiawnder Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ym 1996 fod arfau niwclear yn ddarostyngedig i reolau cyffredin cyfraith ddyngarol sydd yn gwahardd ymosodiadau di-wahân ar ddinasyddion cyffredin. Mae amhosib dychymygu y gallai Trident, gyda'i ergyd niwclear 100-kiloton, wyth gwaith cryfach na bom Hiroshima, wahaniaethu yn y modd hwn. Ni ellir cyfiawnhau parhau i gynhyrchu ergydion niwclear yn SAA Aldermaston."*

Mae Phil Shiner, y cyfreithiwr sy'n gweithredu yn yr achos hwn, yn credu fod y caniatâd ei hun yn gadarnhad barnwrol fod yma achos y gellir ei ddadlau i herio ymddygiad y llywodraeth yn parhau i gynhyrchu ergydion niwclear Trident. Nid yw dyddiadau'r Arolwg Barnwrol wedi eu cadarnhau eto.

**heddweithredu:** I atgyfnerthu eu hachos a'u coffrau, mae ar y Grwp Ymwybyddiaeth Niwclear angen mwy o gefnogwyr a thanysgrifwyr. Am £10 y flwyddyn, cewch lythyr newyddion ardderchog ganddynt. Os gellwch helpu, neu os ydych am ymuno â'r grwp, cysyllter â Pam Vassie, NAG, d/o 30 Westwood Road, Southampton SO17 1DN (0118) 978 0148. e-bost: perry@pvassie.freeserve.co.uk

## Confensiwn Oslo Paris (OSPAR)

Ym mis Mehefin, trafododd Comisiwn OSPAR gynnig drafft a osodwyd ger bron gan lywodraeth Denmarc gyda chefnogaeth llywodraeth Iwerddon yn galw am atal ailbrosesu niwclear yn Sellafield ar unwaith ac ailnegydu cytundebau BNFL fel bod tanwydd niwclear hesb yn cael ei storio yn lle ei brosesu. Cytundeb rhyngwladol yw OSPAR sy'n rheoli llygredd yr amgylchedd morol yn ngogledd-ddwyrain Môr Iwerydd.

Y gweithfeydd ailbrosesu yn Sellafield yn Cumbria a La Hague yn ngogledd Ffrainc yw prif ffynhonnell y gwastraff niwclear yng ngogledd Môr Iwerydd. Bob dydd, mae Sellafield yn unig yn gollwng 2,000 miliwn galwyn o hylif wedi ei lygru gan ymbelydredd i mewn i Fôr Iwerddon, a miliynau o unedau o ymbelydredd i'r awyr. Does dim dôs ddiogel o ymbelydredd. Mae'n achosi niwed genetig di-droi'n-ôl, gwahanaol fathau o gancr, rai ohonynt yn farwol, ac mae wedi ei gysylltu ag alergeddau, asthma a chlefyd y galon. Bydd yr effeithiau hyn ar iechyd yn parhau am filoedd o flynyddoedd: bydd ein disgynyddion yn dioddef o gancrau a achoswyd gan Sellafield.

Gwelodd Greenpeace fod cynhadledd mis Mehefin yn gyfle heb ei ail i roi terfyn ar ailbrosesu drwy ddwyn pwysau ar y llywodraethau oedd yn cymryd rhan, ac annog y cyhoedd i fynegi eu cefnogaeth i atal ailbrosesu yn Sellafield a La Hague. Gosodwyd deisebau ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban, casglwyd llofnodion a'u danfon at y Prif Weinidog. Mae AC Preseli, Richard Edwards, wedi galw ar Gabinet y Cynulliad i ddilyn arweiniad Iwerddon a Denmarc a phwyso ar y llywodraeth Brydeinig i roi terfyn ar ailbrosesu gwastraff niwclear yn Sellafield.

## Trecwn




Mae Cynghrair Wrth-niwclear Sir Benfro (PANA) yn galw ar y Cynulliad i drafod cynnig "na ddylid creu safleoedd niwclear newydd yng Nghymru nac yn unman". Fel y nodwyd mewn rhifyn blaenorol, mae Datganiad o Farn i'r perwyl hwn ei ddrafftio gan Richard Edwards, AC Preseli, ac wedi ei arwyddo gan 33 o'r 49 Aelod Cynulliad cymwys i arwyddo, ar draws y pleidiau. Mae o fewn gallu'r Cynulliad i ystyried problem gwastraff niwclear oherwydd yr effeithiau tymor-hir ar amgylchedd Cymru a'r byd. Rhaid sicrhau, fodd bynnag, na welir ein gwleidyddion yn y Cynulliad fel pobl sydd am ddiogelu eu gardd gefn eu hunain, a'u bod yn barod i edrych ar broblem llygredd gwastraff niwclear ymbelydrol ledled y byd drwy dderbyn pedair egwyddor:

1. na ddylid comisiynu unrhyw orsafoedd neu arfau niwclear i ychwnegu at y broblem gynyddol;
2. na ddylid ailbrosesu unrhyw wastraff niwclear oherwydd mai hynny'n ychwanegu at y broblem;
3. fod rhaid ynysu pob gwastraff niwclear oddi wrth y biosffer;
4. y dylid storio pob gwastraff niwclear ar wyneb y ddaear, ar y safle a'i cynhyrchodd, fel y gellir ei fonitro ac y gellir ei gyrraedd er mwyn ei ailbacio fel y bo angen.

## Safle coffa yng Ngwersyll Heddwch Comin Greenham

Mae'r cynlluniau ar gyfer cofeb ar safle'r Glwyd Felen yn Greenham yn parhau. Mae Cyngor Dosbarth Newbury wedi rhoi caniatâd ar gyfer cerfluniau a gardd a bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen cyn gynted ag y cwblheir cylchfan newydd gerllaw.



**heddweithredu:** gofynnwyd i ni yng Nghymru gyfrannu £1,000 túag at gwblhau'r safle hwn. Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Mary Millington (01633) 265244. Gellir talu cyfraniadau yn syth i"r cyfrif banc yn y Banc Cydweithredol, côd dosbarthu 08-92-99, rhif y cyfrif: 65049640.

## Cerflun Greenham ar gyfer adeilad y Cynulliad?

Mae nifer o aelodau'r Cynulliad yn cefnogi penderfyniad yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn gartref i gerflun yn coffáu'r daith gerdded o Gaerdydd i Gomin Greenham ym 1981. Comisiwynwyd y cerflun hwn yn sgil apêl a wnaed ym 1992. Bydd arddangosfa deithiol o'r model ar gyfer y cerflun (gweler y llun) yn agor ar y 27ain o Awst eleni. Gobeithio y bydd y cerflun wedi cael ei gwblhau a'i osod yn ei le erbyn 27ain Awst 2001, sef ugain mlwyddiant y daith. Manylion gan Thalia Campbell (01970) 871360 www.wfloe.fsnet.co.uk

## Protest Wrth-niwclear yn Dimona, Israel

Dathlodd bron 200 o bobl Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod dros Heddwch a Diarfogi ar 26ain o Fai mewn gwrthdystiad ger adweithydd niwclear mawr Israel yn Dimona, gan alw ar Israel i ddileu ei harfau niwclear ac agor ei holl gyfleusterau niwclear i arolygwyr lleol a rhyngwladol annibynnol. Hon oedd y brotest wrth-niwclear fwyaf yn Israel erioed. Cafwyd areithiau gan Aelod o'r Knesset, Issam Makhoul (Hadash) a gychwynnodd y ddadl seneddol gyntaf erioed ar bolisi niwclear Israel, a Mary Eoloff a ddaeth â neges oddi wrth Mordechai Vanunu, a ddywedodd wrth y byd am gyfrinachau niwclear Israel, ac sydd yn y carchar o'r herwydd: "Bydd arfau niwclear yr arwain at ail holocost. Mae adweithydd Dimona yn ail Auschwitz. Nid oes gan y wladwriaeth yr hawl i ladd dinasyddion, ond dyna'n union beth yw pwrpas yr arfau hyn - lladd dinasyddion."

## Cofio Henry Richard

Cafwyd cyfarfod da i goffáu Henry Richard, yr "Apostol Heddwch", Aelod Seneddol Tregaron yn y 19eg ganrif mewn cyfarfod yn Nhy'r Arglwyddi ym mis Ebrill wedi ei gadeirio gan Myriel Davies. Pwysleisiodd y siaradwyr, D.Ben Rees, David Morris a Hugh Jenkins ddylanwad Henry Richard o fewn mudiadau radicalaidd yr oes ac mor berthnasol oedd ei gred, ei weledigaeth o heddwch ac o sefydlu corff cyflafareddu rhwngwladol i ddatrys anghydfod rhwng cenhedloedd heb iddynt orfod mynd i ryfel. Pwysleisiodd David Morris y byddai Henry Richard wedi bod yn rheng flaen ein mudiad ni dros ddiarfogi niwclear. Ysgrifennodd y diweddar Gwyn Alf Williams,"Y ffordd orau o gofio Henry *(troi dros)*

Richard yw drwy orffen y gwaith a ddechreuwyd ganddo fe." Mae CND Cymru gobeithio ei fod yn cyfrannu tuag at y goffadwriaeth honno. Y gobaith yw y bydd y cyfarfod hwn, a gefnogwyd gan sawl AS ac aelodau o Dy'r Arglwyddi yn fan cychwyn i gynnal digwyddiadau "Henry Richard" blynyddol.

## Sancsiynau fel ffurf o ryfel ecomomaidd Irac

Mae'r ymgyrchydd Lleisiau yn yr Anialwch, Dave Rolstone o sir Benfro, wedi parhau i ymgyrchu i ddiweddu'r sancsiynau economaidd yn erbyn pobl Irac drwy fynd ar drydedd taith dorri sancsiynau i Irac. Dychwelodd ym mis Mai â llu o hanesion arswydus am effeithiu sancsiynau ar bobl gyffredin Irac. Unwaith eto, anwybyddwyd llythyr ganddo at y Prif Weinidog yn cyfaddef ei fod wedi torri'r gyfraith.

Mae'r dioddefaint a'r angau yn Irac yn rhygnu ymlaen. Yn ôl amcangyfrif y CU, er 1990, mae 500,000 o blant dan bump a miliwn a hanner o ddinasyddion eraill wedi marw o achos y sancsiynau a osodwyd ar bobl Irac. Ym mis Gorffennaf, croesawodd Cymdeithas Cenhedloedd Unedig oleuedig Cymru gyn-Gydgysylltydd Dyngarol y CU dros Irac, Denis Halliday, i annerch ar "Ddiweddu Hil-laddiad yn Irac". Bydd cyfarfod cyhoeddus yn etholaeth Peter Hain, yn Neuadd y Dref, Castell-nedd yn croesawu un arall o gyn-Gydgysylltwyr Dyngarol y CU, Hans von Sponeck, George Galloway, AS, a Felicity Arbuthnot (gweler dyddiadau dyddiadur).

## Iwgoslafia

Clywodd cynhadledd a drefnwyd gan y Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau sut mae ymyrraeth filwrol NATO a sancsiynau wedi gwaethygu'r tyndra cenedlaethol a gweddnewid y rhanbarth yn wersyll arfog tlawd. Ddeuddeg mis wedi'r bomio, roedd y gynhadledd yn dwyn ynghyd y mudiad gwrth-ryfel a mudiadau oedd yn gwrthwynebu bomio Iwgoslafia. Meddai Alice Mahon, AS, cadeirydd y Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau: "Flwyddyn yn ôl, drwy fomio Iwgoslafia am 78 diwrnod, cyflawnodd NATO drosedd anferthol yn erbyn dinasyddion cyffredin y wlad hono a rhoi ergyd drom i'r gyfraith ryngwladol a'r Cenhedloedd Unedig. Defnyddiodd yr Unol Daleithau ryfel NATO i chwalu'r drefn ryngwladol a grewyd wedi'r Ail Ryfel Byd. Am y rheswm hwnnw, roedd gwladwriaethau'n cynrychioli mwyafrif pobloedd y byd yn gweld bomio Iwgoslafia fel bygythiad." Dywedodd Bob Marshall-Andrews, QC, AS, a oedd wedi teithio i Iwgoslafia gyda dirprwyaeth o Brydain, "Ta waeth am bwy oedd yn iawn yn y gwrthdaro yn y Balcanau, mae'r polisi sancsiynau yn gosb ofnadwy nid yn unig ar bobl ddiniwed ond hefyd ar y rheini sydd eisoes wedi ffoi o'u cartrefi ac wedi dioddef yn ddifrifol o ganlyniad i'r gwrthdaro hyn. Hyd yn oed heb sancsiynau, byddai'r broblem ffoaduriaid yn unig yn gosod baich economaidd a chymdeithasol annerbyniol ar unrhyw wlad." Ein gweithredoedd ni yw gweithredoedd NATO. Mae ein cynrychiolwyr etholedig yn parhau i fod yn aelodau ac yn hyrwyddo'r gynghrair filwrol hon sydd bellach yn addef ei bod yn newid o gyflawni "swyddogaeth amddiffynnol" i un ymosodol.

**heddweithredu**: Cysylltwch â'r Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau: d/o Alice Mahon AS, Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA. ffon:02072750164
e-bost:committee@peaceinbalkans.freeserve.co.uk

## CRMHRh yn y Cynulliad Cenedlaethol

Mewn digwyddiad hapus a oedd yn dathlu penblwydd Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddir yn 85 oed a phenblwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn flwydd oed, ymwelodd aelodau CRMHRh o Gymru â'r Cynulliad ar y 10fed o Fai. Roedd Dr Dai Lloyd yn eiddgar i gael gwybod canlyniadau ymchwil yn yr Almaen i effeithiau andwyol hedfan isel gan awyrennau milwrol ar glyw plant. Dywedodd Dr Lloyd ei fod yn disgwyl gweithredu pellach ar y pwynt hwn ac mae wedi dangos yr ymchwil i'r Prif Swyddog Meddygol. Gadawyd y model o'r cerflun arfaethedig i goffáu'r daith i Greenham yn adeilad y Cynulliad lle gellid ei weld. Ar yr un pryd â'r ymweliad, roedd CRMHRh wedi danfon cyfarchiad at bob AS i nodi Blwyddyn y CU dros Ddiwylliant Heddwch, a phenblwydd cyntaf y Cynulliad. Cawsant sawl ymateb positif gan ACau i'w neges oedd yn annog y cynrychiolwyr i roi'r flaenoriaeth i obeithion CRMHRh am heddwch, hawliau dynol, yr amgylchedd a hawliau menywod.

## Protestiadau yn Vieques a'r Alban

Roedd ugain o feddygon sy'n pryderu am iechyd yr ynyswyr ymhlith hanner cant o bobl a restiwyd ar safle ymarfer bomio Vieques ar yr 17eg o Fehefin.
Ynys drefol chwe milltir i'r de-ddwyrain o Puerto Rico yw Vieques. Er y 1940au, mae Llynges yr UD wedi rheoli tri-chwarter o 33,000 erw Vieques gan ei defnyddio fel storfa cadoffer a safle ymarfer bomio. Mae'r ynys yn cael ei "rhentu" gan yr UD i NATO a gwledydd eraill fel lle i ymarfer bomio. Mae'r anrhaith ecolegol a achoswyd gan y bomio, yn cynnwys casys bomiau wraniwm hesb, wedi peri cynnydd brawychus mewn afiechydon, gyda chyfradd gancr ar yr ynys sydd 26% yn uwch na chyfradd genedlaethol Puerto Rico ar gyfartaledd. Rheolir adnoddau naturiol ac amaethyddol, pysgodfeydd a chyfathrebu'r ynys gan Lynges yr UD. Mae cadoffer byw a gweithgareddau milwrol ar dir a môr wedi arwain at ryw 50 o farwolaethau ac anafiadau ymhlith pobl yr ynys. Mae ymgyrch faith wedi bod i geisio cau'r ganolfan filwrol ac mae dynion a menywod ifanc yr ynys yn cynnal gwersyll heddwch ger y safle. Oherwydd i'r bomio gael ei atal y llynedd pan laddwyd person lleol gan fom aeth ar gyfeiliorn, aeth Llynges yr UD â'i bomiau i Cape Wrath yn yr Alban i ymarfer. Fe'u dilynwyd yno gan brotestwyr o Vieques oedd am barhau â'u hymgyrch a rhybuddio pobl yr Alban am y problemau maent yn eu rhannu.




**heddweithredu** : Am fwy o wybodaeth neu i gynnig cefnogaeth, cysyllter â'r Pwyllgor er Achub a Datblygu Vieques (CRDV) Box 1428, Vieques, PR 00765, Puerto Rico.

## Restio menywod heddwch (eto)

Cafodd Helen John, Anne Lee ac Angie Zelter eu restio ar ôl torri drwy ffens ddiogelwch â larymau arni i atal tresmaswyr yn Menwith Hill ar Fehefin 19eg. Roedd y ffens newydd wedi cael ei chodi'n ddiweddar yn barod ar gyfer y rhan y disgwylir i'r ganolfan ei chwarae yn y system "amddiffyn" wrth-falistig. Meddai Helen John: *"Dwi'n gwneud hyn am fy mod i'n gwrthwynebu bygythiad Star Wars i'r Cytundeb*




oedd yn gyfystyr â gorchymym cyfreithiol i'w gagio. Yn gynharach, reodd Susan Crane wedi gwrthod ateb cwestiynau'r erlynydd ynglyn â phwy oedd gyrrwr y fan a ollyngodd y pedwar gweithredydd y tu allan i glwydi'r gwersyll fore'r weithred. Cododd menyw yn yr oriel a bloeddio *"Fi oedd gyrrwr y fan"* ac yna, ymunodd eraill gan weiddi *"Fi oedd gyrrwr y fan"*. Cyn hir, roedd mwy na chant o bobl yn y llys yn datgan eu cysylltiadau cynllwyngar â'r pedwar tra sgrechiai'r barnwr wynepgoch am drefn. Bu'r rheithgor yn ystyried am bedair awr cyn cyhoeddi dedfryd. Cefnogwyd amddiffyniad Susan Crane gan dystiolaeth Esgob Detroit, Thomas J. Gumbleton a ddywedodd fod gan Crane *"Ymrwymiad dwfn yn erbyn trais ... I mi, mae ei hunplygrwydd yn ddigwestiwn."* Pan ofynnodd yr erlynydd i'r Esgob a oedd dinistrio eiddo yn profi fod Crane yn dreisgar, atebodd yr Esgon Gumbleton: *"Wela'i ddim fod niweidio eiddo yn tramgwyddo heddgarwch."*

Wedi iddynt gael eu dedfrydu, dywedodd gwraig Philip Berrigan, Elizabeth McAlister wrth gefnogwyr: "Roedden nhw wedi paratoi ar gyfer y gwaethaf, a dyna gawson nhw."

**heddweithredu** : Mae'r pedwar dewr yma yn haeddu ein cefnogaeth. Danfonwch gardiau a llythyron cefnogi atyn nhw: Susan Crane #916-999, Maryland Correctional Institution for Women, PO Box 535, Jessup MD 20794, UDA;
Philip Berrigan #292-139 a'r Parch. Steve Kelly S.J. #292-140, Roxbury Correction Institution, 18701 Roxbury Road, Hagerstown, MD 21746, UDA;
Liz Walz #995-376, 200 Court House Court, Towson MD 21204, UDA.

*Gwrth-Daflegrau Balistig a Chytundeb y Gofod Allanol. Maen nhw'n dweud mai bwriad y system yw 'amddiffyn' ond gellid yr un mor hawdd ei defnyddio fel arf ymosodol yn erbyn unrhyw genedl sy'n gwneud unrhyw beth nad yw'r Unol Daleithau'n ei hoffi. A gallan nhw ddarganfod beth mae pawb yn ei wneud drwy'r system Echelon, sy'n gwyntyllu geiriau targed allweddol drwy gyfrwng y cyfrifiaduron ar y safle yma."* Mae'r menywod yn galw sylw hefyd at ragrith ceisio esgus nad yw'r UD wedi penderfynu i weithredu'r system eto, pan wariwyd miliynau o ddoleri eisoes ar baratoi'r pencadlys ar y ddaear a'i loerennau cysylltiedig ar gyfer yr arfau newydd yn y gofod. Mae Canolfan Ysbïo Rhyfel Gofod yr UD yn Menwith Hill yn chwarae rhan hefyd mewn ysbïo economaidd a milwrol. Gellir bwydo'r wybodaeth a gesglir ganddi i mewn i systemau targedu taflegrau cruise a mathau eraill o arfau. Mae cyfyngiadau caeth ar y cwestiynau y gall ASau eu gofyn am weithgareddau cyfrinachol y ganolfan.

**heddweithredu** : i ymuno â'r ymgyrch, cysylltwch a Gwersyll/ Ymgyrch Heddwch Menywod Menwith Hill (01943 468593) neu CND Swydd Efrog (01274 730795).

## Rhoi taw ar y negeseuwyr: Gweithredwyr Plowshares yr UD yn ôl yn y carchar

Ar y 23ain Mawrth, dedfrydodd barnwr yn yr UD Philip Berrigan, 76 oed, i garchar am 30 mis am ddinistrio eiddo yn faleisus a chynllwynio. Dedfrydwyd dwy heddychwraig ac un heddychwr Pabyddol arall, sef Elizabeth Walz, Susan Crane a'r Tad Stephen Kelly hefyd am ddefnyddio morthwylion a gwaed i niweidio dwy awyren ryfel Warthog A10 yn perthyn i'r Gwarchodlu Awyr Cenedlaethol fis Rhagfyr diwethaf fel protest yn erbyn y ffaith fod yr Unol Daleithau wedi defnyddio wraniwm hesb yn ei rhyfeloedd diweddar yn erbyn Irac ac Iwgoslafia.

Gorchmynnodd y barwr hefyd i'r diffynyddion dalu $88,622.11 rhyngddynt o iawndal am y difrod. Cyfaddeddodd y pedwar, sy'n eu galw eu hunain yn "Plowshares vs. Depleted Uranium", iddynt ddefnyddio torwyr bolltau i fynd i mewn i Ganolfan Gwarchodlu Cenedlaethol Warfield, Maryland, yn oriau mân bore'r 19eg o Ragfyr. Gan ddyfynnu Esaiah 2:4 (*"A hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau ..."*), morthwyliodd y gweithredwyr ddwy awyren ryfel A-10 ac arllwys gwaed drostyn nhw. "Roedd yr awyrennau hyn wedi defnyddio gynnau Gatling i danio gwahanol fathau o fomiau wraniwm hesb a ddefnyddiwyd gan yr U.D. yn ystod 'Rhyfel y Gwlff' ... gan wenwyno bodau dynol a'r elfennau yn Kuwait ac Irac", ysgrifennodd y pedwar mewn datganiad. Gwadwyd i'r diffynyddion yr hawl i gyflwyno amddiffyniad yn trafod peryglon wraniwm hesb a'u hawliau a'u dyletswyddau o dan y gyfraith ryngwladol.

Ni chawsant alw arbenigwyr fel tystion ac o ganlyniad, dywedasant y byddent yn gwrthod cymryd rhan yn yr hyn

**Penblwydd hapus iawn i Wersyll Heddwch Faslane!**
Dathlodd Gwersyll Heddwch Faslane ei benblwydd yn 18 oed ar y 12fed Mehefin. Cyflwynwyd "gwobrau" i gynwersyllwyr am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt!

## Fflam heddwch i'r Urdd

Yn Eisteddfod yr Urdd eleni, gwahoddwyd CND Cymru i achlysur cyflwyno "Fflam Heddwch" i Lywydd yr Urdd, Daniel Evans. Dywedodd Mr Evans fod y fflam yn cynrychioli'r teimladau a fynegir yn Neges Ewyllys Da Ryngwladol yr Urdd a gyflwynwyd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ym mis Mai. Y fflam yw ysbrydoliaeth symbolaidd Ysgol Therapiwteg y Sefydliad Bywyd ym Mangor ac mae'n cynrychioli grym heddwch ymhlith pobloedd y byd. Roedd y fflam wedi cael eu rhannu ymhlith 800,000 o bobl ym mhedwar ban y byd a oedd yn ei defnyddio i ganolbwyntio ar y pethau mwyaf aruchel ynddynt hwy eu hunain, gan gofio pwy ydynt mewn gwirionedd a beth yw'r etifeddiaeth maent am ei gadael i blant y byd.



**heddweithredu:** Ar "Ddiwrnod Rhyngwladol Goleuni" y Sefydliad ar yr 28ain o Orffennaf, bydd canhwyllau "dros heddwch" yn cael eu cynnau ledled y byd. Cysylltwch â'r Sefydliad Bywyd (01248) 602900.

# Dyddiadau Dyddiadur

**Gorffennaf 28ain 7.15pm"Cymru yn y Byd":Peter Hain, AS** Castell-nedd aGweinidog Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad. y Deml Heddwch, Caerdydd. Darlith Benblwydd y Ganolfan Cymru dros Faterion Tramor. Cysyllter â Stephen Thomas (029 20 228549)

**Awst 1af Gweithred Trident Ploughshares 2000 Faslane** (01324 880 744)

**Awst 4ydd 7.30pm Cyfarfod Cyhoeddus: Dim Mwy o Sancsiynau ar Irac.** Neuadd y Dre Castell-nedd gyda Hans von Sponeck (cyn-Gydgysylltydd Dyngarol y CU yn Irac, George Galloway AS a Felicity Arbuthnot. Cadeirydd: Y Cyng. Ray Davies (Is-gadeirydd CND Cymru a thorrwr sancsiynau). Trefnwyd gan Apêl Mariam (020 7872 5451). www.mariamappeal.com

**Awst 6ed - 13eg Yr Eisteddfod Genedlaethol, Llanelli** (gweler y blwch ar wahân)

**Awst 6ed Dydd Hiroshima. Gweithred Pwyntio'r Bys CND Prydeinig yn Aldermaston,** cysyllter â 020 7700 4524.

**Awst 7fed Protest 'Marw dros Bobl Irac'** i nodi dengmlwyddiant gosod sancsiynau economaidd y CU ar Irac.Whitehall, Llundain. Rhoddir hyfforddiant mewn gweithredu di-drais a gwybodaeth gyfreithiol ar Awst 6ed. Llety ar gael. Trefnwyd gan Lleisiau yn yr Anialwch (018865 243232 e-bost: voices@viwuk.freeserve.co.uk)

**Awst 9fed Dydd Nagasaki**

**Medi 12fed 10am-4pm "Diwylliant Heddwch - Breuddwyd neu Nod Bosibl ei Chyrchu?"** Canolfan Gynhadledd Gogledd Cymru, Llandudno Cynhadledd a drefnwyd gan Pax Legalis. Am wahoddiad, cysylltwch â Pax Legalis, 6 Llys Famau, Pantymwyn, Sir y Fflint CH7 5EZ (01352 740 288).

**Hydref 21fed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyngor CND Cymru** Y Deml Heddwch, Caerdydd (01550) 750 260

**Hydref 7fed Diwrnod Rhyngwladol o Weithredu yn Erbyn Amddiffyn Rhag Taflegrau** - trefnwyd gan y Rhwydwaith Byd-eang yn Erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod. Gweithgareddau ym mhob rhan o Brydain. Cysyllter ag CND Swydd Efrog (01274 730 795)

**Hydref 10fed-11eg Y Ymunwch â ni mewn protest "Na i NATO" yn y ganolfan lle cynhelir Uwch-Gynhadledd NATO.** Ganolfan Gonfensiwn Ryngwladol, Birmingham. Cysyllter ag CND Gorllewin Canolbarth Lloegr (0121 643 4617). Os oes arnoch angen cludiant o Gymru, cysyllter ag CND Cymru (01550 750 260).

**Tachwedd 4-5ed Cynhadledd: Arfau Wraniwm Hysb.** Neuadd y Dref, Manceinion. Trefnwyd gan yr Ymgyrch yn erbyn Arfau Wraniwm Hesb (0161 834 8301).

**Tachwedd 11eg Dydd Coffa, Cymod a Dyfodol heb Ryfel; digwyddiadau yng Nghymru.** Cysyllter â'r Richard Jones UNA (029 20 228549)

## Rwyf am ymuno ag CND Cymru

Enw:____________________

Cyfeiriad:____________________

Côd post:__________ Teleffon:__________

Amgaeaf siec/AB am £ _____ yn daladwy i CND Cymru
Pâr cyflogedig: £16; oedolyn: £12. Digyflog, pensiynwyr a ieuenctid: £4. Dychweler i: Aelodaeth CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

## Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn Y Babell Heddwch

**Awst 6 Sul** 12.00pm ***Cofiwn Hirosima***

**Awst 7 Llun** 12.00pm
***"Llygredd Ymbelydrol o Sellafield"*** (CND / WANA)

**Awst 8 Maw** 12.00pm
***" Swyddi heb waed ar ein Dwylo"*** John Gwilym Jones, Ben Gregory, Sian Howys Cynefin y Werin)

**Awst 9 Mer** 12.00 (Pabell Heddwch)
***"Cofiwn Nagasaki Diarfogi Trident: dyddiad Mr Blair?"*** Rhodri Glyn Thomas AC (CND Cymru)
**4.00pm** (Pabell y Cymdeithasau):
**"Y Cynulliad Cenedlaethol a'i Obligiadau Rhyngwladol"** (UNA & WCIA)

**Awst 10 Iau** 12.00pm
**Plant Gorllewin y Sahara ar y maes** : Eurig Wyn ASE yn eu derbyn (Ymgyrch Gorllewin y Sahara)

**Awst 11 gwe** 12.00pm
***"Kosofo: ein llanast ni?"*** (Cymdeithas y Cymod) Alan Jones oedd yn Serbia a Kosovo gyda Tîm Heddwch y Balcan
**2.00pm** (Iglw) " ***Y Cristion a Didreisedd"*** Cymdeithas y Cymod Dewi Myrddin Hughes, Parch. Dewi Thomas, Angharad Tomos

## Cysylltiadau CND Cymru

**Golygydd *heddwch* ac Ymholiadau Cyffredinol:**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR (01550) 750260 e: heddwch@fdn.co.uk

**Cadeirydd**
David Morris (01792) 206968

**Is-Gadeiryddion:**

**Gogledd Cymru**
Dave Andrews (01978) 310491

**Y Canolbarth**
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260

**De Cymru**
Ray Davies (029 20) 889514

**Mwy o wybodaeth, syniadau,neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND agosaf**

**Aelodaeth**
Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

**Cysylltiadau:**
Rhoda Jones (01766) 762739

**Masnachu**
Jan Henderson (01792) 830330

**Trysorydd**
Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**Gweithwraig Seneddol:**
Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch, Powys LD4 4ED

**Cwynion am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel: ffoniwch yr MoD (0171) 218 6020**

**heddwch** yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).
Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.



Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os gwelwch yn dda.

Golygu a chysodi gan Jill Stallard (01550) 750260 (heddwch@fdn.co.uk)
Cyfieithu gan Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Argraffwyd gan Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)
Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, am brynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330